# Disgrifiad Swydd

**Rôl:** Pennaeth Contractau a Pherfformiad
**Cyflog**: £43,530.33, yn codi'n gynyddrannol, i £50,002.67
**Band:** 6.1 i 6.8
**Cytundeb:** Parhaol
**Oriau gwaith:** Llawn amser, 37 awr yr wythnos.
**Lleoliad gweithio:** Bydd gofyn treulio o leiaf ran o'r wythnos waith yn ein Prif swyddfa yn y Rhyl (neu leoliad priodol arall yng ngogledd Cymru) er mwyn cwrdd a chydweithio â chydweithwyr. Gellir gweithio gartref ar ddyddiau eraill.
**Yn atebol i:** Prif Weithredwr
**Yn gyfrifol am:** Nifer fechan o adroddiadau uniongyrchol

## Cefndir

Cwmni nid er elw blaenllaw wedi'i leoli yng ngogledd Cymru yw RCS, yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau penodol i helpu pobl a busnesau ar hyd a lled Cymru i wella llesiant i weithio.

Mae'r rôl Pennaeth Contractau a Pherfformiad yn rhan o uwch dîm arwain sydd wedi'i ehangu'n ddiweddar yn RCS, wrth i'r cwmni geisio cynyddu cyfleoedd i dyfu a datblygu.

Bydd deiliad y swydd yn chwarae rôl allweddol yn y broses o oruchwylio darpariaeth a pherfformiad gwasanaethau cyflogadwyedd RCS, ac yn cydweithio gyda chydweithwyr i lywio ac ysgogi datblygiad strategol y sefydliad.

## Diben y gwaith

Y rôl hon sydd bennaf gyfrifol am berfformiad a darpariaeth yr holl wasanaethau masnachol a'r rhai a ariennir gan grantiau ar draws portffolio RCS.

## Prif gyfrifoldebau:

- Gweithio'n agos ac yn gydweithredol fel rhan o'r Uwch Dîm Arwain, cyfrannu at rediad didrafferth y sefydliad drwy fonitro cynnydd yn weithredol yn erbyn y cynllun busnes y cytunwyd arno, adnabod risgiau lefel uchel a helpu i lywio a gweithredu datrysiadau addas;
- Rheoli a chydlynu rhaglenni a gwasanaethau RCS yn effeithiol, gan optimeiddio perfformiad wrth geisio cyflawni amcanion y gwasanaeth;
- Goruchwylio a monitro perfformiad contractau er mwyn sicrhau bod ein targedau contractiol yn cael eu bodloni;
- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig a chefnogol i reolwyr gwasanaethau. Defnyddio dull hyfforddi i rymuso staff i gymryd perchnogaeth o'u datrysiadau eu hunain, a rhoi cyfleoedd iddynt ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd, gyda'r bwriad o wella eu cynhyrchiant a'u heffeithiolrwydd cyffredinol;
- Arwain rheolwyr gwasanaeth i ddatblygu a gweithredu ymatebion effeithiol ac amserol i feysydd o her, risg neu danberfformiad;
- Goruchwylio bod yr adroddiadau perfformiad yn cael eu paratoi'n rheolaidd, yn brydlon ac yn gywir i gyllidwyr prosiectau, Bwrdd Gweithredol RCS, y Prif Weithredwr a'r Uwch Dîm Arwain, gan dynnu sylw at unrhyw amrywiadau a disgrifio gweithredoedd lliniaru i fynd i'r afael â thanberfformiad;
- Goruchwylio adnoddau a chapasiti cyffredinol, gweithio'n agos gyda'r Pennaeth Adnoddau a Rheolwyr Gwasanaeth er mwyn datblygu a chynllunio datrysiadau staffio effeithiol i fodloni gofynion y gwasanaeth;
- Darparu cymorth o ddydd i ddydd gydag unrhyw faterion diogelu mewn cysylltiad agos â rheolwyr gwasanaeth ac arweinwyr diogelu dynodedig;
- Goruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu prosesau a gweithdrefnau diogelu ar draws gwasanaethau a gweithgareddau RCS;
- Chwilio am gyfleoedd i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth yn gyson, gan ddefnyddio adborth o weithgareddau rheoli ansawdd ac ymgynghoriad rhanddeiliaid i lunio a phrofi dulliau newydd;
- Ysgogi diwylliant o ddysg, creadigrwydd ac arloesedd ar draws y timau, adnabod a rhannu arfer gorau'r diwydiant drwy gyfnewid gwybodaeth, gwaith ymchwil ac ymweliadau astudiaeth ayyb, ac edrych ar gyfleoedd i ehangu a chyfoethogi ein harfer drwy rannu syniadau ac adnoddau gyda thimau, gwasanaethau a sefydliadau eraill

## Prif gyfrifoldebau

- Sicrhau adolygiadau contractau ein darparwyr allanol yn rheolaidd er mwyn cynnal perfformiad a mynd i'r afael ag unrhyw faterion neu heriau;
- Adnabod cyfleoedd dysgu addas i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus ar draws y timau;
- Datblygu cyfathrebiadau a chysylltiadau gweithio cadarnhaol gyda'r holl randdeiliaid a phartneriaid perthnasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y Loteri Genedlaethol, y Ganolfan Iechyd Meddwl, IPS Grow, cyflogwyr, gweithwyr proffesiynol iechyd ayyb;
- Gweithio o fewn y fframwaith cytunedig o drefn llywodraethu corfforaethol ac ariannol;
- Gweithio'n rhagweithiol yn unol â gwerthoedd cwmni RCS - Ymateb, Cysylltu a Chefnogi
- Gweithio yn ôl ein system rheoli ansawdd er mwyn sicrhau gwasanaeth cyson ac o ansawdd i gleientiaid
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl.

## Manyleb Person

## Hanfodol

- Profiad o arwain a hyfforddi timau'n effeithiol er mwyn cyflawni perfformiad o safon wrth gynnal llesiant cadarnhaol
- Hanes profedig o reoli perfformiad yn llwyddiannus yn erbyn targedau
- Profiad o wneud cyfraniad effeithiol ar lefel strategol
- Medrus a phrofiadol wrth adolygu a dadansoddi gwybodaeth reoli er mwyn deall tueddiadau, llifau gwaith, cyfleoedd a heriau
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol rhagorol ar bob lefel, gan gynnwys cyflwyno, trafod, gwrando a dylanwadu
- Hanes profedig o arloesi wrth ddarparu gwasanaeth drwy fod yn greadigol, hyblyg, holistig a pharod i addasu o ran ymagwedd
- Gwybodaeth eang o'r agenda cyflogadwyedd ac iechyd
- Lefel uchel o lythrennedd digidol
- Y gallu i weithio'n gynhyrchiol ac effeithiol fel rhan o dîm a thrwy ddefnyddio eich menter eich hun

## Dymuno

- Y gallu i siarad Cymraeg
- Y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg

**Disgwylir cynnal y cyfweliadau ddydd Gwener 19eg Mehefin 2026 yn ein swyddfa yn y Rhyl**

**Mae RCS wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol lle gall pawb ffynnu. Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir. Dywedwch wrthym os oes angen unrhyw addasiadau rhesymol arnoch ar unrhyw gam o'r broses recriwtio fel y gallwn eich cefnogi i berfformio ar eich gorau.**